# Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) – Diweddariad Cyd Bwyllgor Llywodraethu (CBLl)

Dyddiad cyfarfod CBLl: Dydd Mercher, 13 Mawrth 2024

Lleoliad: Rhithiol, wedi ei gynnal gan Powys

Cadeirydd: Cyng Ted Palmer, Clwyd

Is Gadeirydd: Cyng Elwyn Williams, Dyfed

| Eitem agenda | Manylion |
|---|---|
| Diweddariad yr Awdurdod Lletya | Cyflwynodd Anthony Parnell o'r Awdurdod Lletya ddiweddariad mewn perthynas â gwaith sydd wedi'i gwblhau ers cyfarfod diwethaf y CBLl a chamau/blaenoriaethau nesaf PPC.<br><br>Mae'r ymarfer caffael ar gyfer rheolwyr Eiddo ar y trywydd iawn. Cyhoeddwyd yr ITT 19 Ionawr 2024, derbyniwyd ymatebion ac maent yn cael eu gwerthuso ar hyn o bryd. Disgwylir i'r adroddiad argymhelliad fynd i CBLl yng Ngorffennaf 2024 i'w gymeradwyo, gyda'r contract yn cael ei ddyfarnu ym mis Awst 2024.<br><br>Mae Adroddiad Hinsawdd Cymru Gyfan wedi'i gyhoeddi ar wefan PPC (dolen isod)<br><br>Cyflwynodd Anthony ddiweddariad Cynllun Busnes 2023/24 hefyd ar 31 Rhagfyr 2023 (ynghlwm). |
| Cynllun Hyfforddi WPP 2024/25 | Cyflwynodd Anthony Parnell o'r Awdurdod Lletya Gynllun Hyfforddi PPC 2024/25. Dyfeisiwyd y cynllun hyfforddi hwn i ategu hyfforddiant presennol yr Awdurdodau Cyfansoddol a bydd yn berthnasol i weithgareddau PPC.<br><br>Bydd sesiynau hyfforddi 2024/25 yn cael eu cynnal bob chwarter a byddant yn ymdrin â'r pynciau canlynol:<br>• Gwybodaeth Cynnyrch a Seiberddiogelwch<br>• Polisïau<br>• Buddsoddi Cyfrifol<br>• Deall y Farchnad a Gofynion Rheoleiddio |

| | |
|---|---|
| | Cymeradwyodd y Cydbwyllgor Gynllun Hyfforddi 2024/25 (ynghlwm) |
| Cynllun Busnes WPP 2024-2027 | Mae cynllun busnes PPC wedi'i ddrafftio yn unol ag Adran 6 y Cytundeb Rhyng-Awdurdod. Pwrpas y cynllun busnes yw:<br>• Esbonio cefndir a strwythur llywodraethu'r PPC<br>• Amlinellu blaenoriaethau ac amcanion y Cynllun dros y tair blynedd nesaf<br>• Cyflwyno polisïau a chynlluniau PPC<br>• Amlinellu'r gyllideb ariannol ar gyfer cyfnod y Cynllun Busnes perthnasol<br>• Crynhoi Buddsoddiadau ac Amcanion Perfformiad PPC<br><br>Cyflwynodd Anthony Parnell o'r Awdurdod Lletya Gynllun Busnes PPC 2024-27 (ynghlwm) a gymeradwywyd gan y Cydbwyllgor Llywodraethu. Mae'r Cynllun Busnes bellach wedi'i anfon at bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol am eu cymeradwyaeth ysgrifenedig. |
| Adolygiad Cofrestr Risg Ch1 2024 | Y swyddogion sy'n gyfrifol am gynnal Cofrestr Risg PPC ac adrodd yn ôl unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau i'r Cydbwyllgor Llywodraethu yn chwarterol. Mae gan y swyddogion Is-Grŵp Risg pwrpasol i gymryd perchnogaeth o'r Gofrestr Risg a'r adolygiad chwarterol o'r ddogfen.<br><br>Yn ystod Ch1 2024, cynhaliwyd adolygiad o rai o'r risgiau yn adran Llywodraethu a Rheoleiddio'r Gofrestr Risg, risgiau G1 i G7 a hefyd risgiau G12 a G15.<br><br>Cyflwynodd Hymans y newidiadau a gymeradwywyd gan y CBLl. Mae'r Gofrestr Risg wedi'i llwytho i fyny ar wefan PPC. |
| Adolygiadau Polisi:<br>• Matrics Llywodraethu<br>• Polisi Cyfathrebu | Mae'r PPC wedi cymeradwyo nifer o bolisïau / cynlluniau sydd i'w hadolygu'n rheolaidd. Y chwarter hwn, mae'r swyddogion wedi cynnal adolygiad o'r Matrics Llywodraethu a'r Polisi Cyfathrebu. |

| | |
|---|---|
| | Mae'r matrics Llywodraethu yn rhoi trosolwg o strwythur llywodraethu'r PPC, gan amlinellu penderfyniadau a chamau gweithredu allweddol a gyflawnir gan y PPC. Yn dilyn yr adolygiad eleni, ni wnaed unrhyw newidiadau i'r Matrics Llywodraethu.<br><br>Mae'r polisi Cyfathrebu yn nodi sut y bydd y PPC yn cyflawni ei strategaethau cyfathrebu mewnol ac allanol. Yn ystod yr adolygiad eleni, mae'r polisi wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu ymrwymiad PPC i Fuddsoddi Cynaliadwy a Lleol, a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.<br><br>Cymeradwywyd y polisi Cyfathrebu wedi'i ddiweddaru ac mae wedi'i uwchlwytho ar wefan PPC.<br><br>Nid oedd unrhyw bolisïau newydd y chwarter hwn. |
| Diweddariad Gweithredwr | Cyflwynodd Waystone eu hadroddiad diweddaru chwarterol ar 31 Rhagfyr 2023 (ynghlwm). Mae'r adroddiad hwn yn darparu diweddariadau i'r farchnad, manylion daliadau is-gronfa bresennol PPC, yn ogystal â diweddariad corfforaethol ac ymgysylltu. |
| Adroddiadau Perfformiad ar 31 Rhagfyr 2023 | Cyflwynodd Russell Investments bapur crynodeb perfformiad Ch4 2023 (ynghlwm) yn crynhoi perfformiad pob is-gronfa ACS unigol ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2023. |
| Diweddariad Marchnadoedd Preifat – Isadeiledd | Penodwyd GCM Grosvenor yn ddyranwr isadeiledd PPC ym mis Mawrth 2022. Rhoddodd GCM Grosvenor ddiweddariad cynnydd ar y rhaglenni buddsoddi penagored a chaeedig (ynghlwm). |
| **Eitemau Eithredig** – trafodwyd yr eitemau canlynol yn ystod rhan preifat y cyfarfod. | |
| Adroddiad Ymgysylltu Robeco- Ch4 2023 | Ym mis Mawrth 2020, penodwyd Robeco yn Ddarparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu PPC i ymgymryd â swyddogaethau Pleidleisio ac Ymgysylltu ar ran Partneriaeth Pensiwn Cymru. Dechreuodd Robeco ar eu gwasanaeth ymgysylltu ym mis Ebrill 2020, ac maent wedi darparu |

| | |
|---|---|
| | adroddiad ymgysylltu ar gyfer Chwarter 4 2023 (chwarter yn gorffen 31 Rhagfyr 2023). Y thema ymgysylltu a ddewiswyd ar gyfer y chwarter hwn oedd Tâl Gweithredol Cyfrifol. |
| Buddsoddi Cyfrifol ac adroddiadau Risg Hinsawdd | Bob chwarter, mae Hymans Robertson yn cynhyrchu Adroddiadau Buddsoddiad Cyfrifol chwarterol a Risg yr Hinsawdd ar gyfer is-gronfeydd PPC.<br><br>Ar gyfer Chwarter 4 2023 (y chwarter yn gorffen 31 Rhagfyr 2023), cynhyrchwyd adroddiadau Credyd Byd-eang y DU, Credyd Byd-eang a Bondiau Llywodraeth Fyd-eang.<br><br>Cyflwynodd Hymans yr adroddiadau i aelodau'r CBLl. |
| Adroddiad argymhelliad caffael gweithredwr | Mae’r contract gweithredwr presennol gyda Waystone Management (UK) Ltd yn dod i ben yn Rhagfyr 2024. Mae proses tendro agored wedi cymeryd lle a mae’r broses gwerthuso rwan wedi’i gwblhau. Ar ol cwblhau y proses gwerthuso, cyflwynwyd adroddiad argymhelliad i’r CBLl gyda’r cynigydd a ffefrir.<br><br>Cymeradwywyd y cynigydd a argymhellir gan y Cydbwyllgor Llywodraethu, ac mae'r adroddiad bellach wedi'i anfon at bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol i'w gymeradwyo yn ysgrifenedig. |
| Adroddiad benthyca stoc fel ar 31 Rhagfyr 2023 | Dechreuodd benthyca stoc ym mis Mawrth 2020 a chyflwynodd Northern Trust yr Adroddiad Benthyca Stoc ar gyfer Ch4 2023 (chwarter yn gorffen 31 Rhagfyr 2023). |

Dolen gweddarlledu ar gyfer cyfarfod CBLl 13 Mawrth 2024 isod:

[Cartref - Cyswllt Cyngor Sir Powys (public-i.tv)]

Gwefan PPC -[Cronfa Pensiwn Cymru | Cartref (partneriaethpensiwncymru.org)]

Cyfarfod nesaf:

- Mercher 17 Gorffennaf 2024 – Cyfarfod rhithiol